





ISBN digidol 978 1 4734 6103 1

© Hawlfraint y Goron 2016

WG28150

## Cynnwys

<b>Rhagair</b> .....	<b>3</b>
<b>1 Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
<b>2 Gweledigaeth</b> .....	<b>6</b>
2.1 Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?.....	6
2.2 Y ffordd y mae teithio llesol yn cysylltu ag amcanion ehangach .....	6
2.3 Beth sydd angen newid?.....	7
<b>3 Arweinyddiaeth</b> .....	<b>8</b>
3.1 Y lefel genedlaethol .....	8
3.2 Y lefel leol a thrawsffiniol .....	8
<b>4 Deddfwriaeth, Safonau ac Offer</b> .....	<b>10</b>
4.1 Deddfwriaeth .....	10
4.2 Cynllunio'r seilwaith .....	10
4.3 Offer trafndiaeth .....	11
4.4 Polisi cynllunio.....	11
4.5 Y cwricwlwm cenedlaethol .....	12
4.6 Safonau eraill.....	12
<b>5 Seilwaith</b> .....	<b>14</b>
5.1 Buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn trafndiaeth.....	14
5.2 Cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth .....	14
5.3 Prif-ffrydio teithio llesol mewn cynlluniau cyfalaf eraill.....	14
5.4 Defnyddio cyfraniadau datblygwyr.....	15
<b>6 Hybu a Newid Ymddygiad</b> .....	<b>16</b>
6.1 Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.....	16
6.2 Gwybodaeth a chyngor .....	16
6.3 Ymgynghori ac ymgysylltu.....	17
6.4 Ymyriadau newid ymddygiad.....	17
6.5 Y rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr cludiant .....	18
<b>7 Sgiliau a Hyfforddiant</b> .....	<b>20</b>
7.1 Gweithwyr proffesiynol .....	20
7.2 Penderfynwyr .....	21
<b>8 Monitro a Gwerthuso</b> .....	<b>22</b>
8.1 Monitro .....	22
8.2 Monitro a gwerthuso ar lefel cynllun .....	22
8.3 Monitro'r Cynllun Gweithredu.....	23
<b>Atodiad 1 Crynodeb o'r Camau Gweithredu</b> .....	<b>24</b>
<b>Atodiad 2 Cylich Gorchwyl y Bwrdd Teithio Llesol</b> .....	<b>27</b>

## Rhagair

Gyda Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rydym wedi gosod Cymru ar lwybr fydd o gymorth i drawsnewid ein gwlad yn 'genedl teithio llesol'.

Rydym yn wynebu heriau mawr wrth geisio sicrhau lles corfforol a meddyliol ein cenedl, yn awr ac i genedlaethau i ddod. Mae cynyddu lefelau cerdded a beicio yn cynnig ffordd uniongyrchol iawn o sicrhau lluo o fanteision i'n cynorthwyo i gyflawni hyn.

Mae'n cynnig ffordd syml o adeiladu gweithgarwch corfforol i mewn i fywydau pob dydd a dod â gwelliannau iechyd cysylltiedig; mae'n lleihau trafndiaeth fodurol a gyda hynny y llygredd yn yr aer, allyriadau carbon a thagfeydd; mae'n gymorth i wneud i bobl a chymunedau deimlo'n fwy cysylltiedig ac yn hybu busnesau lleol; mae'n cynnig symudedd rhad, gan ei gwneud yn bosibl cael mynediad at addysg, swyddi a gwasanaethau.

Mae gwireddu'r manteision hyn yn gofyn am newid gwirioneddol yn y modd y mae pobl yng Nghymru yn gwneud eu teithiau pob dydd byrrach. Lle mae oddeutu 6 y cant o oedolion yn beicio a 64 y cant yn cerdded yn awr ar deithiau llesol o leiaf bob wythnos, ein gobaith yw gweld hyn yn codi'n sylweddol erbyn 2026. Bydd annog a galluogi hyn i ddigwydd yn gofyn am ymdrechion nid gan Lywodraeth Cymru yn unig, ond ein partneriaid: awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol, y sector addysg, busnesau, y trydydd sector ac, nid lleiaf, pobl Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn egluro'r camau y byddwn ni fel y Llywodraeth yn eu cymryd. Bydd angen ychwanegu at y rhain â chynlluniau strategol partneriaid ledled Cymru.

**Edwina Hart MBE CStJ AC**

**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

**Chwefror 2016**


# 1 Cyflwyniad

Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau cynyddu lefelau cerdded a beicio yng Nghymru er mwyn sylweddoli'r lluo o fanteision sy'n dod yn sgil teithio llesol - i unigolion ac i gymdeithas. Yn y Rhaglen Lywodraethu, gwnaethom ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth fyddai'n cefnogi'r nod hon. Derbyniodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (y Ddeddf Teithio Llesol) Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2013, a daeth i rym ym mis Medi 2014. Mae'n paratoi'r ffordd i drawsnewid y modd yr ydym yn cynllunio ac yn adeiladu seilwaith cerdded a beicio yn ogystal ag annog newid mewn ymddygiad yng Nghymru. Ond rhan o'r darlun yn unig yw'r Ddeddf. Mae angen amrywiaeth o gamau gweithredu a newidiadau helaethach gan y Llywodraeth ac eraill er mwyn cyflawni'r newid y mae arnom eisiau ei weld.

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn canolbwyntio ar gerdded a beicio fel dull o deithio, h.y. ar gyfer teithiau pwrpasol. Nid oedd y Ddeddf yn ymdrin â cherdded a beicio ar gyfer pleser yn unig ond mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid cerdded a beicio er mwyn pleser a beicio cystadleuol. Bydd llawer o'r camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon o fudd ar gyfer cerdded a beicio amser hamdden neu gystadleuol, lawn cymaint â theithiau llesol. Fel yn y Ddeddf, mae 'cerdded' yn y cynllun hwn yn cynnwys defnyddio cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, ac mae 'beicio' yn cynnwys defnyddio beiciau trydan, ond nid beiciau modur.

Yn 2014, fe wnaethom ymgynghori ynghylch Cynllun Gweithredu Teithio Llesol drafft. Roedd atebion yr ymgynghoriad yn ei gwneud yn eglur, er bod cryn gefnogaeth i nodau'r Cynllun Gweithredu a llawer o'i gynnwys manwl, bod dymuniad ymhlith llawer am Gynllun Gweithredu oedd yn mynegi ei uchelgais a'i gyfeiriad strategol a'i gysylltiadau yn fwy eglur ac a oedd yn llai cyfyngedig i amser.

Datblygwyd y ddogfen hon mewn ymateb i'r pryderon a'r awgrymiadau hynny. Mae Ffigur 1 yn dangos ei strwythur. Trafodwyd y Cynllun yn y Bwrdd Teithio Llesol, fydd yn gyfrifol yn barhaus am gefnogi ei weithredu.



**Ffigur 1 - Strwythur Cynllun Gweithredu Teithio Llesol**

Pwrpas y Cynllun hwn yw egluro:

- gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer teithio llesol a'r modd y mae'n cysylltu â'n nodau ehangach
- sut y byddwn yn cydweithio gydag eraill i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen
- sut y byddwn yn sefydlu ystyriaeth o deithio llesol ar draws y gwahanol bortffolios
- sut y byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn a'r graddau o deithio llesol sy'n digwydd ledled Cymru.

Yr hyn **nad yw'r** cynllun hwn **yn ei wneud**:

- ailadrodd pam yr ydym yn cefnogi Teithio Llesol - cafodd yr achos ei wneud mewn modd cynhwysfawr yn ystod taith y Bil Teithio Llesol, a gafodd ei basio yn unfrydol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

## 2 Gweledigaeth

### 2.1. Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?

I bobl yng Nghymru mae arnom eisiau i gerdded a beicio ddod yn ddewis ffordd o symud o gwmpas ar deithiau byrion.


Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, mae'n rhaid i ni fedru sicrhau newid diwylliant yng Nghymru ar lefel polisi a lefel y boblogaeth. Ar hyn o bryd, mae llawer gormod o bobl yng Nghymru, nad ydynt byth yn mynd ar deithiau llesol, ac yn rhy aml nid yw teithio llesol yn ystyriaeth prif lif pan fydd gwasanaethau neu gyfleusterau newydd yn cael eu cyflwyno. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn egluro'r meysydd allweddol lle y bydd uchelgais Deddf Teithio Llesol (Cymru 2013 yn cael ei gyflawni.

Rydym yn cydnabod bod gwahanol rannau o Gymru yn cyflwyno amgylchiadau gwahanol iawn; mae'r cyfleoedd i bobl allu cyflawni eu teithiau pob dydd ar droed ac ar feic yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd gwledig a dinesig ac mae'r data sydd gennym yn gyfyngedig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd diffinio set o dargedau. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn disgrifio'r meysydd blaenoriaeth er mwyn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio teithio llesol yn amlach, gyda'r nod o gynyddu'n sylweddol y gyfran o'r boblogaeth sy'n cerdded neu'n beicio ar gyfer teithiau byrion. Rhoddir manylion pellach yn Adran 8.

### 2.2 Sut mae teithio llesol yn ymwneud ag amcanion ehangach

Mae'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymru wedi ei mynegi yn y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a ffyrdd o weithio sydd yn sylfaen iddynt (a ddangosir yn Ffigur 2). Mae gan bedwar a deugain o gyrff cyhoeddus sydd wedi eu rhestru yn y Ddeddf ddyletswydd i gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn a glynu at yr egwyddorion sy'n sail iddynt.

Bydd cynyddu'r teithio llesol yng Nghymru yn gymorth uniongyrchol i gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Mae hyn yn golygu bod cefnogi teithio llesol yn ffordd uniongyrchol iawn y gall awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gyfrannu at gyflawni eu dyletswyddau nid yn unig dan y Ddeddf Teithio Llesol ond hefyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



**Ffigur 2: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Nodau Llesiant ac Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy**

Yn yr un modd, mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy gyda'i phum ffordd o weithio yn sylfaenol i'r ffordd y dylid cynllunio a darparu ymyriadau teithio llesol:

- Hirdymor: gyda golwg ar sylweddoli'r buddion tymor hir a chymryd cynlluniau datblygu'r dyfodol i ystyriaeth;
- Atal: atal afiechyd, dibyniaeth ar geir, unigrwydd, diffyg mynediad at waith a chyfleoedd hyfforddi;
- Integreiddio: ar draws gwahanol ffyrdd o deithio ac o ddefnyddio tir a gweithgareddau ategol;
- Cydweithio: o fewn ac ar draws sefydliadau a ffiniau;



- Cynnwys pobl: defnyddwyr cludiant, defnyddwyr posibl ac eraill yr effeithir arnynt mewn ffordd wahanol.

Cafodd y Cynllun Gweithredu hwn ei ddatblygu gyda'r ffyrdd hyn o weithio yn ganolog iddo: mae'n egluro ein gweledigaeth dymor hir, sy'n anelu at atal afiechyd, dirywiad amgylcheddol, ac allgau cymdeithasol; fe'i paratowyd drwy ddeialog ac ymgysylltu trylwyr â phartneriaid mewnol ac allanol ac mae'r camau gweithredu yn adeiladu cysylltiadau rhwng gweithgareddau ac yn eu hintegreiddio ar draws sectorau gwahanol.

## 3 Arweinyddiaeth

Bu arweinyddiaeth gweinidogion yn gyfrwng i ddod â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i fod yn rhan o'r ddeddfwriaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i arwain wrth i'r Ddeddf gael ei gweithredu ledled Cymru. Derbyniodd y Ddeddf Teithio Llesol gefnogaeth gref ar draws y sbectrwm gwleidyddol, gan adlewyrchu'r ffaith fod ei nodau yn rhai a rennir gan lawer ac y bydd cynnydd mewn teithio llesol yn esgor ar fanteision amrywiol iawn fydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i fyd trafnidiaeth. Er mwyn sylweddoli'r manteision hyn, mae'n hanfodol cael ymrwymiad cryf ar draws portffolios, o ran cyllid yn ogystal â chyflawni.

### 3.1. Y lefel genedlaethol

Mae'r cyfrifoldeb pennaf am deithio llesol yn Llywodraeth Cymru yn gorffwys ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd teithio llesol ar draws adrannau, sefydlwyd y Bwrdd Teithio Llesol yn 2014. Ei swyddogaeth yw darparu cefnogaeth strategol i weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol a gweithgareddau ehangach i gefnogi cynnydd mewn cerdded a beicio. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr prif adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn annibynnol. Ceir aelodaeth bresennol y Bwrdd a'i gylch gorchwyl yn Atodiad 2 Bydd y Bwrdd yn parhau i oruchwylio'r cynnydd yng ngweithrediad y Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu hwn, gan ddefnyddio'u harbenigedd a'u rhwydweithiau i gefnogi cyfathrebu a hybu teithio llesol, hyrwyddo teithio llesol o fewn eu sefydliadau eu hunain a chynghori ynghylch datblygu a chyflawni ymyriadau teithio llesol.

Mae pwrpas cyffredin amlwg rhwng ein nod o gynyddu lefelau gweithgaredd corfforol yng Nghymru a chynyddu cerdded a beicio. Bydd y Bwrdd Teithio Llesol yn ffurfio cysylltiadau agos gyda gwaith grwpiau lefel uchel eraill sy'n gweithio ar bynciau cysylltiedig, megis gweithgaredd corfforol.

### 3.2. Lefel leol a thrawsffiniol

Mae dyletswyddau'r Ddeddf Teithio Llesol yn ymwneud ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ond mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'u cylch gwaith traws-wasanaethau strategol, y potensial i gyflawni swyddogaeth bwysig ar lefel

leol, yn hyrwyddo ac yn goruchwyllo cyflawni teithio llesol ar draws gweithgareddau partneriaid.

Anogir awdurdodau lleol i ymgysylltu'n eang ynghylch y modd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau mapio a chynllunio dan y Ddeddf, gan gynnwys gydag awdurdodau cyfagos ynglŷn â llwybrau a rhwydweithiau trawsffiniol. Er nad oes rheidrwydd i gydweithredu gydag awdurdodau eraill, mae llawer o leoedd yng Nghymru lle y byddai datblygu rhwydweithiau sy'n addas i'r diben yn elwa llawer o wneud hynny.

Dylai'r holl awdurdodau lleol sefydlu mecanweithiau effeithiol i ymgysylltu ac ymgynghori â phartneriaid allanol, ond mae yr un mor hanfodol bod hyn yn digwydd o fewn yr awdurdodau lleol eu hunain. Mae Teithio Llesol yn rhy aml yn cael ei ystyried fel mater trafndiaeth, pan fydd llawer o'r manteision yn cael eu teimlo gan gyflogwyr, ysgolion, colegau yn ogystal â darparwyr iechyd a gwasanaeth cymdeithasol. Felly, dylid mynd i'r afael â'r dasg o gefnogi cynnydd mewn cerdded a beicio fel mater sy'n gyffredin i nifer o wasanaethau mewn awdurdodau lleol, yn ogystal ag ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

#### **Camau gweithredu - Arweinyddiaeth**

- 1. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu goruchwyliaeth weinidogaethol i weithrediad y Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu ac mae'n hyrwyddo cydweithrediad ar draws adrannau. Adroddir am enghreifftiau o weithgarwch traws-adrannol y Gweinidog drwy'r adroddiad blynyddol.**
- 2. Mae'r Bwrdd Teithio Llesol yn darparu goruchwyliaeth strategol genedlaethol ar y modd y mae'r Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cyflawni ac mae'n defnyddio galluoedd sefydliadol aelodau i hyrwyddo teithio llesol.**
- 3. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cyfleu sut mae teithio llesol yn cefnogi nodau llesiant yn uniongyrchol ac yn gymorth i gyflawni ar draws gwasanaethau.**

## 4 Deddfwriaeth, Safonau ac Offer

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o wneud cerdded a beicio y ffordd fwyaf 'naturiol' o fynd o gwmpas, rhaid iddo gael ei ymgorffori yn y fframweithiau a'r offer cyfreithiol, rheoliadol ac ymgynghorol sy'n llywodraethu ac yn cefnogi'r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r rheiny sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth. Mae angen ei brifffrydio i mewn i feysydd mor amrywiol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Safonau Iechyd.

### 4.1. Deddfwriaeth

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod y prif sylfaen cyfreithiol y caiff teithio llesol yng Nghymru ei gynnal ganddo. Caiff ei hategu gan is-ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys y Cyfarwyddyd ynghylch yr ardaloedd dynodedig y mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf yn berthnasol iddynt a Chyfarwyddiadau i Awdurdodau Lleol sy'n pennu neu'n addasu sut a phryd y mae'n rhaid i rai dyletswyddau gael eu cyflawni. Byddwn yn ceisio dysgu wrth i awdurdodau lleol ailadrodd am y tro cyntaf y broses o gynhyrchu'r ddau set o fapiau. Byddwn yn dal i adolygu'r rhestr o ardaloedd dynodedig ac yn ei diwygio fel bo'n angenrheidiol. Byddwn hefyd yn diwygio'r Canllawiau Cyflawni, sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf, lle bo angen.

Bydd Bil Cymru yn datganoli pwerau deddfwriaethol pellach dros drafnidiaeth. Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r rhain er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr.

Y tu hwnt i fyd trafnidiaeth, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws adrannau er mwyn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol eraill i gryfhau teithio llesol, lle bydd y rhain yn dod i'r amlwg.

### 4.2. Dylunio'r seilwaith

Fe wnaethom gyhoeddi Canllawiau Dylunio statudol i ategu'r Ddeddf Teithio Llesol ym mis Rhagfyr 2014. Mae'r Canllawiau hyn yn rhoi cyngor ynghylch cynllunio, dylunio, adeiladu a chynnal rhwydweithiau a seilwaith teithio llesol ac maent i gael eu defnyddio ar bob cam yn y broses. Mae defnyddio'r Canllawiau yn fandadol i awdurdodau'r priffyrdd yng

Nghymru, h.y. awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ac maent yn egluro'r safonau y disgwylir i seilwaith newydd a gwell ar gyfer cerdded a beicio eu cyrraedd.

Mae'r Canllawiau'n disgrifio amrywiaeth o ddewisiadau dylunio ar gyfer mathau gwahanol o seilwaith, o'r hyn sydd wedi ei ddefnyddio a'i brofi yn y gorffennol i elfennau o ddylunio mwy arbrofol ac mae'n esbonio pryd y gall y rhain fod yn addas (manylion safonol/manylion awgrymedig/manylion posibl). Y bwriad yw y byddwn yn dysgu, dros gyfnod, oddi wrth y mannau lle y cafodd y gwahanol elfennau eu defnyddio ac yn casglu tystiolaeth i ddiwygio eu graddiad, fel y gall datrysiadau 'posibl' ddod yn 'awgrymedig' neu'n 'safonol', os byddant yn llwyddiannus - neu gael eu dileu os canfyddir bod problemau yn gysylltiedig â hwy, ac y gellir ymgorffori elfennau newydd.

Byddwn yn egluro'r mecanweithiau ar gyfer dysgu wrth gymhwyso'r Canllawiau Dylunio, gan sefydlu arfer gorau ac adolygu graddiad yr elfennau.

#### **4.3. Offer trafndiaeth**

##### **Rheoli Data Teithio Llesol**

Cyllidodd Llywodraeth Cymru arolwg cychwynnol o seilwaith teithio llesol yn yr holl ardaloedd dynodedig yng Nghymru, a chofnodwyd canlyniadau hwn mewn system rheoli data bwrpasol. Gall yr holl awdurdodau lleol gael mynediad at y data ar y seilwaith yn eu hardal a'i ddiwygio. Mae'r system yn darparu'r gallu i fapio, fydd yn sicrhau lefel o gysondeb rhwng dulliau awdurdodau lleol o gyflawni eu dyletswyddau mapio ac adrodd dan y Ddeddf Teithio Llesol. Mae modd i'r system gael ei defnyddio y tu hwnt i gylch gwaith y Ddeddf, ac anogir ei defnyddio'n ehangach. Oherwydd y graddau uchel o wybodaeth fanwl sydd ei angen ar ddefnyddwyr mewn awdurdodau lleol. nid yw'r system yn ei ffurf bresennol yn addas i gael ei gwneud yn agored i'r cyhoedd. Gan ei bod yn adnodd cyfoethog o wybodaeth, byddwn yn edrych ar ffyrdd y gellir peri bod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd mewn ffordd fydd wedi ei symleiddio, yn hawdd ei defnyddio, ac, yn ddelfrydol, yn rhyngweithiol.

##### **Gwerthusiad Trafndiaeth**

Rhaid i bob prosiect trafndiaeth sy'n derbyn cyllid gan y Llywodraeth gael ei werthuso ar sail Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafndiaeth Cymru (WeITAG). Mae WeITAG wrthi'n

cael ei adolygu ar hyn o bryd. Beirniadwyd dulliau blaenorol o arfarnu trafndiaeth am beidio ag adlewyrchu buddion cynlluniau teithio llesol yn ddigonol, yn enwedig y manteision o ran iechyd. Bydd y fersiwn ddiwygiedig yn ystyried sut y gellir ymgorffori'r manteision hyn yn gywir yn y gwerthusiad.

#### 4.4. Polisi cynllunio

Mae gan y system gynllunio swyddogaeth allweddol i'w chyflawni mewn hyrwyddo teithio llesol. Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18: Mae trafndiaeth yn hyrwyddo cerdded a beicio, yn unol ag amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r diweddariad diweddar i Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, Ionawr 2016) yn cynnwys diweddariad ffeithiol i dynnu sylw at y cysylltiad rhwng y system gynllunio a'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddwn hefyd yn ystyried a fyddai'r arweiniad yn TAN 18 yn elwa o gael ei ddiweddarau i hybu teithio llesol ymhellach a byddwn yn gwneud awgrymiadau i Lywodraeth nesaf Cymru. Byddwn hefyd yn diweddarau TAN 12: Y dyluniad i gyfeirio at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a thynnu sylw at bwysigrwydd dyluniad a gosodiad unrhyw ddatblygiad newydd o ran hybu teithiau llesol ac o ran creu llwybrau teithio llesol gwell a newydd ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig.

#### 4.5. Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae ymgorffori teithio llesol i mewn i drefn ddyddiol plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i gefnogi datblygiad diwylliant o deithio llesol yng Nghymru. Mewn ysgolion mae cyfleoedd yn bodoli o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol i ysgolion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision teithio llesol, h.y. fel rhan o gyflawni rhaglen astudio ar gyfer Addysg Gorfforol, ac o fewn *Fframwaith Addysg bersonol a Chymdeithasol i ddisgyblion 7-19 mlwydd oed yng Nghymru*, gan gysylltu â hyrwyddo iechyd a llesiant, a datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o adnoddau penodol i gefnogi'r maes hwn o ddysgu fel yr ystyrir yn briodol, er enghraifft hyfforddiant beicio i safonau cenedlaethol.

Fel rhan o ddatblygu argymhellion yn adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*, byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol y mae ar blant eu hangen i ddod yn deithwyr llesol medrus a hyderus yn cael eu cydnabod a'u hyrwyddo o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru drwy Faes Iechyd a Llesiant o Ddysgu a Phrofiad.

#### 4.6. Safonau Eraill

Mae rhaglen 'Cymru Iach ar Waith' sy'n cael ei darparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys modiwlau ar weithgaredd corfforol o fewn y Safon Iechyd Gorfforaethol a Gwobr Iechyd y Gweithle Bychan. Mae'r meini prawf a'r arweiniad ar gyfer y gwobrau hyn yn pwysleisio'r buddion i'r cyflogwyr a'r gweithwyr o hybu a galluogi teithio llesol. Yn y Safon Iechyd Gorfforaethol, mae'r modiwl yn cael ei gefnogi gan Sustrans Cymru a Ramblers Cymru, ac mae ynddo haenau, o ddarparu gwybodaeth am deithio llesol ar gyfer y Safon Efydd i gynllunio i ddefnyddio dewisiadau cludiant isel mewn carbon ar gyfer y Safon Blatinwm, er enghraifft.

Mae Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS) yn annog datblygu ysgolion sy'n hybu iechyd ledled Cymru. Er mwyn bod o gymorth i ysgolion, sefydlodd Llywodraeth Cymru 22 o gynlluniau lleol a'u hachredu fel rhan o'r WNHSS. Mae pob cynllun lleol yn cyflogi ymarferwyr ysgolion iach sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i'w cynorthwyo i nodi eu hanghenion gwella eu hunain o safbwynt iechyd o fewn y rhwydwaith cenedlaethol, ac wedyn cymryd camau gweithredu.

Cafodd y dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol (NQA) WNHSS eu cyhoeddi yn 2010. Mae'r dangosyddion hyn yn edrych am ddull ysgol gyfan ar draws saith o bynciau iechyd, gan gynnwys bwyd a ffitrwydd, ar draws meysydd arweinyddiaeth, y cwricwlwm, amgylchedd ac ethos yr ysgol, a'r rhan a chwaraeir gan deuluoedd a'r gymuned. Mae angen i ysgolion fod wedi bod yn ymwneud â'r WNHSS am naw mlynedd o leiaf cyn y gallant wneud cais am y Wobr Ansawdd. Anogir ysgolion sy'n ymwneud â'r cynllun i ystyried cerdded a beicio fel rhan o'u gwaith ysgol iach; gallai hyn gynnwys gweithgareddau megis darparu llwybrau i feiciau, bws cerdded, a chymryd rhan mewn mentrau megis wythnos gerdded i'r ysgol.

Byddwn yn edrych i mewn i'r modd y gellir defnyddio cysylltiadau â gweithgareddau ategol sy'n seiliedig yn yr ysgol er mwyn cryfhau elfennau teithio llesol y cynllun.

**Camau Gweithredu - Deddfwriaeth, Safonau ac Offer**

4. Byddwn yn parhau i adolygu Is-ddeddfwriaeth teithio llesol, gan ddysgu oddi wrth gyfnod cynnar gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol.
5. Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r pwerau trafndiaeth newydd er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Byddwn yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol eraill ar gyfer cryfhau teithio llesol.
6. Byddwn yn dal i adolygu'r Canllawiau Dylunio, gan adeiladu ar adborth gan awdurdodau lleol ar y defnydd o elfennau dylunio gwahanol.
7. Bydd System Rheoli Data Teithio Llesol yn cynnig adnodd ar y cyd i gofnodi, rheoli a chyhoeddi gwybodaeth am seilwaith teithio llesol yng Nghymru. Byddwn yn edrych i mewn i ffyrdd o ddarparu mynediad cyhoeddus at wybodaeth allweddol.
8. Byddwn yn ymgorffori ystyriaeth o effeithiau iechyd mewn WeITAG diwygiedig.
9. Byddwn yn ystyried a fyddai TAN 18: Trafndiaeth a TAN 12: Dylunio yn elwa o gael eu diweddarau i hybu teithio llesol ymhellach drwy'r system gynllunio.
10. Fel rhan o gyflwyno'r Cwricwlwm yng Nghymru, byddwn yn annog ysgolion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd teithio llesol, a sicrhau iechyd a llesiant disgyblion.
11. Byddwn yn ystyried sut y gellir cryfhau elfennau teithio llesol y Safon Iechyd Gorfforaethol a Chynlluniau Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach.



## 5 Seilwaith

Mae cael isadeiledd o ansawdd da ar gyfer cerdded a beicio mewn lleoedd ar draws Cymru yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth. Er bod yna rai llwybrau ardderchog, mae'r ddarpariaeth bresennol yn tueddu i fod yn anghyson, yn ddigyswllt ac, mewn rhai achosion, heb fod yn addas i'r diben. Mae angen inni symud o sefyllfa lle mae pobl yn cerdded ac yn beicio er gwaethaf diffyg seilwaith addas, i sefyllfa lle mae pobl yn dewis cerdded a beicio, oherwydd ei fod yn hawdd, yn ddiogel, yn hwylus ac yn ddymunol. Mae amgylcheddau o safon dda yn allweddol i'r weledigaeth hon gan ei fod wedi ei brofi bod pobl yn fwy tebygol o gerdded a beicio os yw'r amgylchedd o'u cwmpas yn lle dymunol i fod ynddo. Mae angen i fuddsoddiadau mewn seilwaith sicrhau bod yr amgylchedd gwyrdd yn cael ei ystyried.

Mae'r Ddeddf wedi creu'r sylfaen fydd yn sicrhau y byddwn yn gallu cyfeirio buddsoddiad yn well - ar sail dealltwriaeth gywir o'r diffygion presennol ynghyd â chynlluniau wedi eu hystyried yn drwyadl ar gyfer rhwydweithiau integredig. Er mwyn hyrwyddo creu seilwaith o ansawdd da, mae angen i ni wneud yn fawr o'r cyllid o nifer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys y sector preifat. Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyllido fydd yn ystyried manteision pennu swm penodol o gyllid trafndiaeth teithio llesol yn erbyn dewisiadau cyllid eraill.

Mae plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth: bydd ymddygiadau egniol a ddysgwyd ac a brif-ffrydiwyd yn gynnwys yn gymorth i sefydlu ymddygiadau iach am oes. Rhaid inni greu amgylcheddau lle mae plant yn ddiogel i gerdded o gwmpas neu fynd ar feic ar gyfer y teithiau y mae arnynt eisiau eu gwneud fel rhan o'u trefn ddyddiol. Mae ymgynghori â phobl ifanc wedi bod ac yn parhau i fod yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio rhwydweithiau teithio llesol ar gyfer y dyfodol.

### 5.1. Buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn trafndiaeth

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr pryd bynnag y bydd yn buddsoddi mewn seilwaith priffyrdd. Byddwn felly yn sicrhau y bydd yr holl waith adeiladu priffyrdd a chynlluniau gwella yn y dyfodol yn ystyried darpariaeth ar gyfer cerdded a beicio

o'r cychwyn. Byddwn hefyd yn ceisio gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr pan fyddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cludiant cyhoeddus, fel rhan o'r datrysiadau cludiant integredig ar gyfer y dinasoedd-rhanbarth, neu mewn perthynas â gwelliannau i orsafoedd rheilffordd.

## **5.2. Cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn peri bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol dan nifer o grantiau trafndiaeth. Bydd creu a gwella seilwaith teithio llesol, sy'n cydymffurfio â'r Canllawiau Dylunio, yn ganolbwynt allweddol i grantiau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r Gronfa Trafndiaeth Leol a bydd hefyd yn rhan amlwg o gynlluniau a gaiff eu cefnogi gan Grant Diogelwch y Ffyrdd. Fel rhan o ddatblygiad y strategaeth gyllido, byddwn yn adolygu addasrwydd y trefniadau grant presennol yng ngoleuni gofynion y Ddeddf Teithio Llesol ac yn eu diwygio os bydd angen.

## **5.3. Prif-ffrydio teithio llesol mewn cynlluniau cyfalaf eraill**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau buddsoddi enfawr dan raglenni megis Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain a phrosiectau'r GIG. Mae cynlluniau o'r math yma yn bwysig o ran creu teithiau. Disgwylwn fod ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer mynediad drwy gerdded a beicio i staff a disgyblion ysgol, neu staff, cleifion ac ymwelwyr ysbyty wedi cael ei ystyried ym mhob prosiect cysylltiedig ag addysg ac iechyd sy'n gwneud cais am gyllid cyfalaf a refeniw gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr ystyriaeth hon yn rhan o'r broses o graffu a gwerthuso pob cynnig. Wrth ystyried a hyrwyddo datblygiad safleoedd i ddibenion datblygu economaidd defnyddir casgliad o offer cynladwyedd i nodi cyfleoedd i gynnwys cerdded, beicio a chludiant mewn ffyrdd gwahanol.

## **5.4. Defnyddio cyfraniadau datblygwyr**

Ar gyfer datblygiadau newydd mae mecanweithiau wedi eu sefydlu i gyllido'r seilwaith newydd sydd ei angen ar gyfer y rhain, gan gynnwys llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Gall awdurdodau lleol godi tâl Seilwaith Cymunedol ar ddatblygiad newydd yn eu hardal i dalu am y seilwaith sydd ei angen.

Mae'r system yn codi tâl ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd a bydd y tâl yn seiliedig ar faint a natur y datblygiad newydd, lle bo system o daliadau wedi ei mabwysiadu. Ar gyfer

anghenion seilwaith, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â datblygiad newydd, mae hefyd y cyfle i gyllido'r rhain drwy ddyletswyddau cynllunio a drafodir. Anogir awdurdodau lleol i ystyried y seilwaith teithio llesol, gofynnol wrth bennu rhestr taliadau Seilwaith Cymunedol ac mewn trafodaethau unigol.

#### **Camau Gweithredu - Seilwaith**

**12. Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyllido ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol**

**13. Byddwn yn ystyried ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr pryd bynnag y byddwn yn gwneud buddsoddiadau uniongyrchol mewn seilwaith trafndiaeth.**

**14. Byddwn yn parhau i roi cyllid grant ar gael ar gyfer cynlluniau teithio llesol lleol o safon uchel.**

**15. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried mynediad ar gyfer cerddwyr a beicwyr cyn y byddwn yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf.**

## 6 Hybu a Newid Ymddygiad

Mae creu seilwaith da a fframweithiau deddfwriaethol a rheoliadol yn elfennau hanfodol i alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio. Hyd yn oed ar eu pen eu hunain, mae'n debygol y byddent yn arwain at nifer fwy o deithiau cerdded a beicio, ond mae perygl y câi'r rhain eu gwneud yn bennaf gan y rheiny oedd eisoes yn gwneud teithiau llesol cyn iddynt gael eu rhoi yn eu lle.

Er mwyn cyrraedd y traean o boblogaeth yr oedolion nad ydynt yn gwneud unrhyw deithiau llesol a'u cael i ddefnyddio teithio llesol, mae angen dulliau gwahanol o hybu teithio llesol. Mae angen i'r rhain amrywio o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth i fentrau newid ymddygiad rhagweithiol. Mae rhaglenni rhagweithiol o safon uchel i gynorthwyo plant a phobl ifanc i sefydlu ymddygiadau teithio llesol yn chwarae rhan yn hyn. I lawer o oedolion, bydd mynd gyda'u plant ar deithiau byrion hefyd yn ffordd dda i adeiladu cerdded a beicio i mewn i'w trefn ddyddiol.

O dan y Ddeddf Teithio Llesol, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i hybu teithio llesol. Gall hyn gymryd nifer o ffurfiau a bod ar lefel cynllun neu lefel ehangach. Er mwyn cefnogi eu gwaith, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu pecyn offer hybu ac ymgysylltu, gan ddwyn ynghyd arferion gorau a'r adnoddau sydd ar gael.

### 6.1. Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth

Gan adlewyrchu manteision traws-sector teithio llesol, mae'n bwysig bod negeseuon ynghylch teithio llesol wedi eu cynnwys mewn cyfathrebiadau mewn llawer o gyd-destunau gwahanol ac i lawer o gynulleidfaoedd, mewn egwyddor a hefyd ar gyfer rhwydweithiau, llwybrau a chynlluniau lleol penodol. Bydd swyddogion Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu graidd mewn cydweithrediad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Teithio Llesol, fydd yn cynnwys digwyddiadau cenedlaethol, cylchlythyr a gwefan ac yn ystyried mentrau fydd yn codi proffil teithio llesol a bydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Bydd aelodau'r Bwrdd Teithio Llesol yn cymryd yr awenau o ran hwyluso lledaeniad ehangach drwy eu sefydliadau a'u rhwydweithiau. Mae nifer o grwpiau partneriaeth eang yn bod eisoes ar lefel genedlaethol a lleol a all weithredu fel eiriolwyr dros deithio llesol. Mae angen i'r Bwrdd Teithio Llesol ar y lefel

genedlaethol a'r cynllunwyr teithio llesol ar y lefel leol ffurfio cysylltiadau a dylanwadu ar grwpiau o'r fath a'u strategaethau a'u cynlluniau gweithredu er mwyn defnyddio'r cyfleodd i gynyddu cyfranogiad mewn teithio llesol.

## **6.2. Gwybodaeth a chyngor**

Mae cyfoeth o ffynonellau gwybodaeth a chyngor yn bod eisoes ynghylch teithio llesol. Gall hyn ynddo'i hun ei gwneud yn heriol i aelodau o'r cyhoedd ddod o hyd i'r union wybodaeth y mae arnynt ei heisiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu porth teithio llesol ar-lein ar gyfer Cymru, fydd yn cyfeirio defnyddwyr y rhyngrwyd yn glir at y ffynonellau mwyaf addas. Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen i hwn gael ei gynnal yn gyson a'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau mewn arferion gorau.

Mae Traveline Cymru, y porth gwybodaeth deithio ar gyfer Cymru, eisoes yn darparu cyfleuster cynllunio teithiau llesol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Traveline Cymru i weld sut y gellir gwella hwn, ac, yn y dyfodol, ei gysylltu â'r data teithio llesol diweddaraf sydd ar gael o'r system fapio teithiau llesol a'i farchnata'n effeithiol i'w ddefnyddwyr.

## **6.3. Ymgynghori ac ymgysylltu**

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori effeithiol wrth ddatblygu'r mapiau teithiau a'r mapiau rhwydweithiau integredig presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod barn defnyddwyr teithiau llesol, defnyddwyr posibl a'r rheiny y bydd y cynlluniau yn effeithio fel arall arnynt yn cael ei hystyried yn llawn.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu eang ac egniol ynghylch cynlluniau ar gyfer teithio llesol yn gofyn am ymdrech fwy sylweddol na phroses ymgynghori sylfaenol iawn, ond bydd hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth a'r tebygolrwydd y bydd pobl yn defnyddio'r seilwaith pan fydd yn ei le, ac felly'n cyflawni'r gwaith o hybu. Bydd y pecyn offer hybu ac ymgysylltu yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'r gweithgareddau hyn.

#### 6.4. Ymyriadau newid ymddygiad

Gall ymyriadau newid ymddygiad fod yn amrywiol iawn. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau dwys ar raddfa fawr megis cynllunio teithiau personol neu gynlluniau cyfeirio am ymarferion, ond hefyd gynlluniau sy'n defnyddio cyfleoedd ar gyfer sgysiau byrion achlysurol, megis ymyriad camdefnyddio alcohol, 'Mynnwch Air'.

Mae dull seiliedig mewn lleoliadau yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ar sefydlu ymddygiadau teithio llesol sy'n gysylltiedig â theithiau y mae pobl yn eu gwneud yn fwyaf rheolaidd; er enghraifft y daith i'r ysgol neu i'r gwaith. Yn lleoliad yr ysgol, yn dilyn y prosiect 'Bike it', rydym yn cyllido 'Teithiau Llesol', ymyriad dros flynyddoedd lawer i hybu teithio llesol mewn ysgolion. Byddwn yn edrych i weld sut y gellir ymgorffori elfennau hybu teithio llesol i mewn i raglenni ategol a gyflwynir, megis hyfforddiant beicio a hyfforddiant i blant sy'n cerdded, ac yn anelu at ddatblygu a chynnal peilot ar hyfforddiant diwygiedig.

Rydym yn cyllido rhaglen yr Eco-ysgolion fel rhaglen ymgysylltu bwysig dan arweiniad disgyblion ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae oddeutu 95% o'r ysgolion yng Nghymru yn cymryd rhan yn y rhaglen, sy'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus, ac mae dros 860 o ysgolion yng Nghymru wedi ennill gwobr y Faner Werdd ryngwladol bwysig. Mae rhaglen yr Eco-ysgolion yn hybu nifer o faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth gan fod hwn yn un o'r wyth modiwl a astudir gan ddisgyblion. Mae materion trafndiaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion ond maent hefyd yn effeithio ar yr ysgol ehangach, ei hathrawon a'r rhieni, nid yn unig o ran pa mor bell yw'r daith i'r ysgol, ond hefyd o ran ôl troed carbon, llygru'r aer, tagfeydd traffig a diogelwch ar y ffyrdd, ac iechyd a ffitrwydd disgyblion.

Mae Eco-ysgolion yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau o fewn y modiwl trafndiaeth, er enghraifft:

- Diwrnodiau cerdded i'r ysgol
- Rhaglenni bws cerdded
- Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd Iau
- Ymarferion ôl troed carbon

- Materion parcio - mae Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd lau hyd yn oed wedi rhoi 'tocynnau parcio' ffug i rieni sy'n parcio'n beryglus y tu allan i'r ysgol.
- Arolygon defnyddwyr y ffyrdd

Byddwn yn annog cysylltiadau agosach rhwng Eco-ysgolion a rhaglenni ategol, megis rhaglen Ysgolion Iach a Theithiau Llesol, i atgyfnerthu eu negeseuon a'u gweithgareddau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer cydgysylltwyr cynlluniau teithio ar draws Cymru, ac mae cylch gwaith y rhain yn cynnwys cynorthwyo awdurdodau lleol, cyflogwyr a sefydliadau eraill i alluogi a hybu teithio llesol a lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Mae Cynllun Beicio i'r Gwaith yn cyflwyno cyfle da i gyflogwyr annog eu staff i ddechrau teithio ar feic drwy leihau'r baich ariannol o brynu beiciau ac offer.

Mae Sustrans Cymru yn derbyn cyllid drwy Gynllun Grant y Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru i gyflwyno cyfres o heriau teithio llesol ar-lein i weithleoedd ar draws Cymru, gan gynnwys ysbytai a phrifysgolion. Mae'r Her Teithio Cymru yn anelu at roi cymhelliad i dros 4,500 o weithwyr i gynyddu pa mor aml y maent yn gwneud teithiau llesol ac yn defnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer teithiau pob dydd, a newid o deithiau ar eu pen eu hunain mewn ceir i deithiau llesol cynaliadwy.

Bydd yr Her yn ategu gwaith Cydgysylltwyr y Cynlluniau Teithio ac yn targedu cyflogwyr a'u staff ar draws yr holl sectorau i newid patrymau teithio gweithwyr, ar sail model 'cyfnodau newid' o newid ymddygiad.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod cysylltiadau gyda rhaglenni ategol, nad ydynt wedi eu hanelu at deithio llesol yn uniongyrchol, megis 'She Cycles Wales', prosiect tair blynedd o feicio yng Nghymru i annog mwy o ferched a genethod i feicio. Agwedd allweddol ar y prosiect yw gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill i gael mwy o ferched yn eu harddegau i reidio beic drwy fodel Breeze o deithio mewn grŵp dan arweiniad.

Mae cerdded a beicio wedi cael eu cynnwys yng nghanllawiau gweithgareddau corfforol y Prif Swyddog Meddygol, a roddwyd i weithwyr ieuchyd proffesiynol er mwyn iddynt gael offeryn syml a hawdd cyfeirio ato i annog gweithgaredd corfforol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi ymyriadau a sianelau ychwanegol a all fod yn addas i gyflawni newid mewn ymddygiad tuag at deithio llesol yng Nghymru gyda golwg ar ddatblygu a chynnal peilot ar ymyriadau addas.

### **6.5. Y rhyngweithio rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr cludiant**

Gall rhannu seilwaith arwain at densiwn weithiau rhwng gwahanol fathau o ddefnyddwyr cludiant. Ar hyn o bryd, nid oes data dibynadwy ar nifer y digwyddiadau, a storïol yw'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddyfynnir. Ymddengys bod gwrthdaro'n digwydd amlaf rhwng gyrwyr a beicwyr ar y ffyrdd; a rhwng cerddwyr a beicwyr ar balmentydd/mannau i gerddwyr neu leoedd a rennir.

Mae graddau bychan o densiwn yn debyg o fod yn anochel; rhydd y Canllawiau Dylunio gyngor sut y gellir lleihau tensiwn o'r fath, gymaint ag y bo modd, drwy ystyried anghenion yr holl ddefnyddwyr posibl a'r rheiny yr effeithir arnynt yn ystod camau gwahanol yn y broses, o gynllunio rhwydwaith i ddylunio cynllun.

Gyda'r nifer cynyddol o gerddwyr a beicwyr yr ydym yn anelu at eu denu, mae perygl, am gyfnod dros dro o leiaf, y bydd gwrthdaro'n digwydd yn amlach ac y gallai agweddau at ddefnyddwyr cludiant eraill ymwreiddio fwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys yr awdurdodau lleol a heddlu lleol perthnasol i ddatblygu mecanweithiau er mwyn monitro gwrthdaro sy'n codi o ganlyniad i fwy o deithio llesol, yn y gobaith o ganfod datrysiadau addas i leihau achosion o wrthdaro.



**Camau Gweithredu - Hybu a Newid Ymddygiad**

- 16. Byddwn yn datblygu pecyn offer hybu ac ymgysylltu teithio llesol fydd wedi ei fwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, adrannau Llywodraeth Cymru ac ymarferwyr eraill.**
- 17. Byddwn yn datblygu strategaeth gyfathrebu genedlaethol ar gyfer teithio llesol.**
- 18. Byddwn yn gweithio gyda Traveline Cymru i weld sut i wella a sut i farchnata eu cynllunydd teithiau llesol.**
- 19. Byddwn yn cyllido rhaglen fydd yn hybu teithio llesol mewn ysgolion ac yn adolygu'r hyfforddiant i gerddwyr a beicwyr gyda'r bwriad o alinio'r rhaglenni hyn yn agos gyda nodau'r Ddeddf Teithio Llesol. Byddwn yn annog cysylltiadau agosach rhwng rhaglenni ategol seiliedig yn yr ysgol.**
- 20. Byddwn yn parhau i adolygu swyddogaeth y cydgysylltwyr cynlluniau teithio er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gynyddu nifer y rheiny sy'n manteisio ar deithio llesol a lleihau'r defnydd o geir, ynghyd â Her Teithio Cymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod rhaglenni ategol ac ymyriadau newid ymddygiad ychwanegol, addas ac rydym yn bwriadu eu treialu.**
- 21. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fonitro gwrthdaro rhwng grwpiau o ddefnyddwyr cludiant ac yn nodi mesurau i wella'r rhyngweithio rhyngddynt fel bo angen.**

## 7 Sgiliau a Hyfforddiant

Wrth gynllunio ar gyfer teithio llesol, mae dylunio ac adeiladu rhwydweithiau a hybu'r defnydd o gerdded a beicio yn weithgareddau syml y gall gweithwyr proffesiynol cymwys, mewn egwyddor, eu cyflawni heb lawer o anhawster; ond mae yna brinder ar hyn o bryd o bobl sy'n meddu ar arbenigedd teithio llesol ar draws Cymru. Mae hyn yn cael ei wneud yn waeth gan gyfyngiadau gallu ehangach, ar lefel leol a lefel genedlaethol. Er mwyn cynllunio a chyflawni rhwydweithiau yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y sgiliau perthnasol yn cael eu hadeiladu fel y gellir goresgyn cyfyngiadau gallu.

### 7.1. Gweithwyr proffesiynol

Mae Canllawiau Dylunio Teithio Llesol yn rhoi llawlyfr i weithwyr proffesiynol trafndiaeth a chynllunio i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf, yn ogystal â chynllunio a dylunio ar gyfer teithio llesol yn gyffredinol. Mae hwn yn arweiniad newydd, sy'n sefydlu safonau newydd ac mae'n annog cynnal peilot ar ddatrysiadau trafndiaeth newydd ac arloesol, a bydd Llywodraeth Cymru yn dylunio ac yn cynnig hyfforddiant ar sut y mae i gael ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyngweithiol am agweddau eraill ar weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol, megis datblygu mapiau rhwydweithiau integredig. Byddwn yn gweithio gyda chyrff proffesiynol perthnasol i sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Byddwn yn edrych i weld beth yw'r ffordd orau i alluogi defnyddwyr i rannu eu profiadau a lledaenu arferion da a rhoi adborth. Bydd hyn yn bwydo i mewn i ddiweddariadau i'r Canllawiau ac fe'u defnyddir mewn cyfathrebiadau. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o nodau a gofynion y Ddeddf, a'r Canllawiau sy'n cyd-fynd â hi, y tu hwnt i'r gynulleidfa wybodus, mewn digwyddiadau amrywiol a thrwy sianelau addas eraill.

Gall gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol gyflawni swyddogaeth allweddol drwy annog pobl i fanteisio ar deithio llesol, gan eu bod yn cael cysylltiad uniongyrchol â chleifion a chleientiaid. Mae ymwybyddiaeth glir ymhlith y sector o fuddion gweithgaredd corfforol, ac mae angen i ni barhau i ganfod y ffyrdd mwyaf effeithiol o annog cleifion a chleientiaid i geisio cerdded neu feicio fel ffyrdd di-gost neu gost isel o ddod yn fwy egnïol.

Gall prifathrawon, athrawon a llywodraethwyr gael dylanwad mawr dros y ffordd y mae plant yn teithio i'r ysgol, drwy greu diwylliant teithio llesol yn eu hysgolion. Byddwn yn defnyddio'r rhaglen Teithiau Llesol ac yn edrych i mewn i sianelau eraill i godi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon a llywodraethwyr o'r buddion i ddisgyblion o gerdded a beicio i'r ysgol a'r adnoddau a'r hyfforddiant sydd ar gael i'w cynorthwyo.

## **7.2. Penderfynwyr**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar y Bwrdd Teithio Llesol i ganfod cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i gofynion ymysg cynghorwyr yng Nghymru.

### **Camau Gweithredu - Sgiliau a Hyfforddiant**

- 22. Byddwn yn cynnig hyfforddiant sut i ddefnyddio'r Canllawiau Dylunio ac yn galluogi dysgu rhyngweithiol ar agweddau eraill ar deithio llesol fel bo angen.**
- 23. Byddwn yn datblygu mecanweithiau i alluogi ymarferwyr i rannu profiad a rhoi adborth.**
- 24. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i nodau a'i gofynion ymhlith gweithwyr proffesiynol trafndiaeth, iechyd ac addysg, a chynghorwyr lleol.**

## 8 Monitro a Gwerthuso

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o fesur lefelau teithio llesol, o gyfran y teithiau neu bellter hyd at gyfraddau defnyddio. Beth bynnag fo'r dull, mae'n eglur ein bod yn cychwyn o waelodlin gymharol isel ac mai yn raddol y bydd newid yn digwydd. Yn unol â nod y Ddeddf Teithio Llesol a'n gweledigaeth, rydym yn meddwl bod angen i bwyslais y monitro fod ar y gyfran o'r boblogaeth sy'n teithio'n llesol.

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod traean o oedolion yn 2014 heb gerdded am bum munud, na beicio yn yr wythnos flaenorol fel teithio llesol. Mae'r rhwystrau'n amrywio; o'r corfforol a'r logistaidd i'r canfyddiadol a'r symbylol.

Dangosodd profiad mewn mannau eraill fod newid graddol yn bosibl ac mai ychydig o rwystrau sy'n anorchfygol, os yw'r amodau iawn yn eu lle. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn egluro beth yw'r elfennau gwahanol sydd eu hangen i gychwyn creu'r amodau hyn. Nid oes amheuaeth y bydd newid o ddiwylliant ceir i ddiwylliant teithio llesol yn cymryd cyfnod sylweddol o amser ac y bydd angen ymrwymiad gwleidyddol ac ariannol parhaus.

Byddwn yn monitro cynnydd ac yn adrodd yn flynyddol ar faint o deithio llesol sy'n digwydd yng Nghymru a disgwyliwn weld newid graddol yn erbyn gwaelodlin 2014. Gwelodd hyn 6% o bobl oedd yn gwneud un daith o leiaf ar gefn beic yr wythnos a 64% oedd yn gwneud un daith gerdded o leiaf yr wythnos. Rydym yn anelu i symud at batrwm erbyn 2026 lle bydd 10% yn beicio unwaith yr wythnos o leiaf ac y bydd 80% yn cerdded unwaith yr wythnos o leiaf am y cyfan neu ran o daith bwrpasol. Byddwn yn datblygu targedau priodol a hefyd yn monitro pa gyfran o'r boblogaeth sy'n gwneud teithiau llesol yn aml, sy'n golygu tair taith gerdded neu feicio yr wythnos. Bydd y graddau y caiff hyn ei gyflawni yn dibynnu, nid yn unig ar gamau gweithredu'r Llywodraeth yn unig, ond ar ymdrechion llawer o bartneriaid fydd yn ceisio cyflawni.

Mae Deddf Teithio Llesol yn gofyn am 'welliant parhaus' yn erbyn mesur gwaelodlin o gerdded neu feicio ar y rhwydweithiau llwybrau sy'n bod eisoes. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar y gwelliannau y maent wedi eu gwneud a'r costau a achoswyd gan hynny. Gyda phob adolygiad o'u Mapiau Llwybrau Presennol, mae'n rhaid iddynt

adrodd hefyd ar y newid mewn teithio llesol ar eu llwybrau. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleoli ddatblygu fframwaith monitro ac adrodd i sicrhau dull cyson.

### **8.1. Monitro**

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol i ba raddau y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud teithiau llesol yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn monitro teithio llesol yng Nghymru yn genedlaethol gyda'r dangosyddion lefel uchel canlynol:

- Cyfran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n defnyddio beic ar gyfer teithio llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos.
- Cyfran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n cerdded i ddibenion teithio llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos.
- Cyfran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n defnyddio beic i ddibenion teithio llesol o leiaf dair gwaith yr wythnos.
- Cyfran y boblogaeth (16 oed a hŷn) sy'n cerdded i ddibenion teithio llesol o leiaf dair gwaith yr wythnos.
- Cyfran y plant ysgol gynradd sydd fel arfer yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol.
- Cyfran y plant ysgol uwchradd sydd fel arfer yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol.
- Nifer y beicwyr pedal ar y ffordd a anafwyd yn ddifrifol ac a gafodd eu derbyn i'r ysbyty.

Cymerir y data ar gyfer y pedwar dangosydd cyntaf allan o'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Ni fydd data o'r ffynhonnell hon ar gyfer 2015-16, oherwydd bod yr Arolwg Cenedlaethol wedi ei ailddylunio. At hynny, byddwn yn ychwanegu at y dangosyddion lefel uchel drwy ddadansoddi'r data ymhellach i edrych ar y defnydd o deithio llesol yn ôl ffactorau megis rhyw ac oedran. Drwy gronni data dros nifer o flynyddoedd, bydd yn bosibl hefyd edrych ar ddata ar lefel is-genedlaethol, gan gynnwys ar lefel awdurdodau lleol. Yn llai aml, byddwn yn ceisio casglu data ychwanegol ar faterion megis faint o bobl sy'n berchen ar feic a dibenion y teithiau llesol.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i adrodd, wrth gyflwyno Mapiau Llwybrau sy'n bod eisoes, ar y modd y mae lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn ardal yr awdurdod lleol wedi newid. Bydd dadansoddiad o awdurdodau lleol

ar gyfer y dangosyddion lefel uchel yn ategu unrhyw waith monitro ar lefel llwybrau y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud.

## **8.2. Monitro a gwerthuso ar lefel cynllun**

Mae monitro a gwerthuso effaith cynlluniau ac ymyriadau yn elfen bwysig mewn sicrhau gwerth am arian a symud yn nes at gyflawni'r newid diwylliant yr ydym yn anelu ato.

Ar gyfer cynlluniau cyfalaf, mae'r Canllawiau Dylunio yn disgrifio amryw o ddulliau fydd yn gymorth i benderfynu ar fframwaith monitro priodol, yn dibynnu ar raddfa a natur y prosiect. Mae hyn yn neilltuol o bwysig ar gyfer cynlluniau sydd wedi defnyddio dyluniadau cynlluniau mwy arbrol, fel y gall y profiad o'u defnyddio ddylanwadu ar unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'r Canllawiau.

Ar gyfer cynlluniau refeniw, megis newid ymddygiad a rhaglenni hyfforddiant, mae angen adeiladu gwerthusiad addas i mewn i ddyluniad y cynllun. Er mwyn bod o gymorth i ddysgu a rhannu, dylid mabwysiadu dulliau cyffredin o gasglu data cyn belled ag y bo modd, a dylid adrodd am y canlyniadau yn erbyn casgliad o ganlyniadau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion cenedlaethol cytunedig. Byddwn yn edrych i mewn i gyfleoedd i beri bod canlyniadau gwerthuso a monitro, cynlluniau canolog a lleol, ar gael i bobl eraill sy'n cymryd rhan mewn prosiectau cyffelyb.

## **8.3. Monitro'r Cynllun Gweithredu**

Bydd y Bwrdd Teithio Llesol yn derbyn diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Gweithredu ym mhob un o'i gyfarfodydd, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu penodol mewn mwy o fanylder. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys diweddariad cryno ar weithredu'r Cynllun Gweithredu.

**Camau gweithredu - Monitro a Gwerthuso**

- 25. Byddwn yn datblygu targedau teithio llesol a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith monitro ac adrodd lleol cyson.**
- 26. Byddwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol.**
- 27. Byddwn yn edrych i mewn i gyfleoedd i alluogi ac annog rhannu canlyniadau monitro a gwerthuso.**
- 28. Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro gan y Bwrdd Teithio Llesol yn gyson, a chaiff diweddariad ei gynnwys ym mhob Adroddiad Blynyddol.**

## Atodiad 1 - Crynodeb o'r Camau Gweithredu

Rhif	Cam Gweithredu	Cyfnod o Amser	Arweinydd
	<b>Arweinyddiaeth</b>	<b>B(1b), C(2-3b), H(4-5b) P (parhaus)</b>	
1	Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu goruchwyliaeth weinidogaethol dros weithrediad y Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu ac mae'n hyrwyddo cydweithrediad ar draws adrannau. Adroddir am enghreifftiau o weithgarwch traws-adrannol y Gweinidog drwy'r adroddiad blynyddol	P (parhaus)	GEGTh (Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth)
2	Mae'r Bwrdd Teithio Llesol yn darparu goruchwyliaeth strategol genedlaethol ar y modd y mae'r Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cyflawni ac mae'n defnyddio gallu sefydliadol ei aelodau i hyrwyddo teithio llesol.	P	BTLI (Bwrdd Teithio Llesol)
3	Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cyfleu sut y mae teithio llesol yn cefnogi'r nodau llesiant yn uniongyrchol ac o fudd i ddarpariaeth draws-adrannol.	P	LIC - Trafnidiaeth CLILC
	<b>Deddfwriaeth, Safonau ac Offer</b>		
4	Byddwn yn parhau i adolygu Is-ddeddfwriaeth teithio llesol, gan ddysgu oddi wrth gyfnod cynnar gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol.	C (Canolig)	LIC - Trafnidiaeth
5	Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r pwerau trafndiaeth newydd er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Byddwn yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol eraill ar gyfer cryfhau teithio llesol pan fyddant yn codi.	C,H (Hir)	LIC - Trafnidiaeth
6	Byddwn yn dal i adolygu'r Canllawiau Dylunio, gan adeiladu ar adborth gan awdurdodau lleol ar y defnydd o elfennau dylunio gwahanol.	C, P	LIC - Trafnidiaeth
7	Bydd System Rheoli Data Teithio Llesol yn cynnig adnodd ar y cyd i gofnodi, rheoli a chyhoeddi gwybodaeth am seilwaith teithio llesol yng Nghymru. Byddwn yn edrych i mewn i ffyrdd o ddarparu mynediad cyhoeddus at wybodaeth allweddol.	B (Byr),C	LIC – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi LIC - Trafnidiaeth
8	Byddwn yn ymgorffori ystyriaeth o effeithiau iechyd mewn	B	LIC - Trafnidiaeth



	WelTAG diwygiedig.		
9	Byddwn yn ystyried a fyddai TAN 18: Trafnidiaeth a TAN 12: Dylunio yn elwa o gael eu diweddarau i hybu teithio llesol ymhellach drwy'r system gynllunio.	B,C	LIC - Cynllunio
10	Fel rhan o gyflwyno'r Cwricwlwm yng Nghymru, byddwn yn annog ysgolion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd teithio llesol, a sicrhau iechyd a lesiant disgyblion.	B,C,H	LIC - Addysg
11	Byddwn yn ystyried sut y gellir cryfhau elfennau teithio llesol y Safon Iechyd Gorfforaethol a Chynlluniau Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach.	B,C	LIC - Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru
<b>Seilwaith</b>			
12	Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyllido ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol	B	LIC - Trafnidiaeth
13	Byddwn yn ystyried ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr pryd bynnag y byddwn yn gwneud buddsoddiadau uniongyrchol mewn seilwaith trafndiaeth.	P	LIC - Trafnidiaeth
14	Byddwn yn parhau i roi cyllid grant ar gael ar gyfer cynlluniau teithio llesol lleol o safon uchel.	P	LIC - Trafnidiaeth
15	Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried mynediad ar gyfer cerddwyr a beicwyr cyn y byddwn yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf.	P	LIC
<b>Hybu a Newid Ymddygiad</b>			
16	Byddwn yn datblygu pecyn offer hybu ac ymgysylltu teithio llesol fydd wedi ei fwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, adrannau Llywodraeth Cymru ac ymarferwyr eraill.	B,P	LIC - Trafnidiaeth
17	Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyfathrebu genedlaethol ar gyfer teithio llesol.	B,P	LIC - Trafnidiaeth
18	Byddwn yn gweithio gyda Traveline Cymru i weld sut i wella a marchnata eu cynllunydd teithiau llesol.	B	LIC - Trafnidiaeth LIC - TGCh
19	Byddwn yn cyllido rhaglen fydd yn hybu teithio llesol mewn ysgolion ac yn adolygu'r hyfforddiant i gerddwyr a beicwyr. Byddwn yn annog cysylltiadau agosach rhwng rhaglenni ategol seiliedig yn yr ysgol.	B,C	LIC - Trafnidiaeth LIC - Iechyd LIC - NR
20	Byddwn yn parhau i adolygu swyddogaeth y cydgysylltwyr cynlluniau teithio er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gynyddu	C	LIC - Trafnidiaeth LIC - Iechyd

	nifer y rheiny sy'n manteisio ar deithio llesol a lleihau'r defnydd o geir, ynghyd â Her Teithio Cymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod rhaglenni ategol ac ymyriadau newid ymddygiad ychwanegol, addas ac rydym yn bwriadu eu treialu.		
21	Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fonitro gwrthdaro rhwng grwpiau o ddefnyddwyr cludiant ac yn nodi mesurau i wella'r rhyngweithio rhyngddynt fel bo angen.	C	LIC - Trafnidiaeth BTLI Yr heddlu CLILC
<b>Sgiliau a Hyfforddiant</b>			
22	Byddwn yn cynnig hyfforddiant sut i ddefnyddio'r Canllawiau Dylunio ac yn galluogi dysgu rhyngweithiol ar agweddau eraill ar deithio llesol fel bo angen.	B,P	LIC - Trafnidiaeth
23	Byddwn yn datblygu mecanweithiau i alluogi ymarferwyr i rannu profiad a rhoi adborth.	C	LIC - Trafnidiaeth
24	Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i nodau a'i gofynion ymhlith gweithwyr proffesiynol trafndiaeth, iechyd ac addysg, a chynghorwyr lleol.	B,C	LIC - Trafnidiaeth BTLI
<b>Monitro a Gwerthuso</b>			
25	Byddwn yn datblygu targedau teithio llesol ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith monitro ac adrodd lleol cyson	B,C	LIC – Trafnidiaeth LIC Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi CLILC
26	Byddwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol.	P	LIC - partneriaid darparu cludiant
27	Byddwn yn edrych i mewn i gyfleoedd i alluogi ac annog rhannu canlyniadau monitro a gwerthuso.	C	LIC - Trafnidiaeth BTLI
28	Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro gan y Bwrdd Teithio Llesol yn gyson, a chaiff diweddariad ei gynnwys ym mhob Adroddiad Blynyddol.	P	LIC - Trafnidiaeth BTLI

---

## Atodiad 2 - Cylch Gorchwyl y Bwrdd Teithio Llesol

### Pwrpas a Chylch Gwaith

Diben y Bwrdd Teithio Llesol yw cyd-drefnu gweithgareddau i helpu i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol.

Bydd hyn yn cynnwys y gorchwylion penodol canlynol:

- Darparu mewnbwn i adolygiad ar gyflawni prosiectau teithio llesol yn effeithiol a bod o gymorth i weithredu unrhyw gamau gweithredu sy'n codi yn dilyn ystyriaeth gan Weinidogion.
- Cynghori ynghylch datblygu a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol, gan gynnwys sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni o fewn cylch cyfrifoldeb y sefydliad.
- Rhoi cyngor ar weithgaredd ehangach i gynorthwyo i weithredu'r Ddeddf a chynyddu teithio llesol.

Caiff swyddogaeth ac effeithiolrwydd y Bwrdd ei adolygu yn dilyn cyflwyno mapiau'r Llwybrau sy'n bod eisoes gan awdurdodau lleol ym mis Medi 2015.

### Aelodaeth

Cadeirydd - Yr Athro Stuart Cole

Aelodau:

Uwch Swyddogion yn cynrychioli'r portffolios Gweinidogaethol canlynol:

- Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg a Sgiliau
- Adnoddau Naturiol

Rhanddeiliaid allanol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Anabledd Cymru
- Strydoedd Byw
- Sustrans
- Cymdeithas Beiciau
- Beicio Cymru

- Ramblers
- CTC (Clwb Teithio Beicwyr)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynghrair Beicio i'r Gwaith

Gwahoddir cynrychiolwyr adrannau a chyrff eraill ac unigolion i fod yn bresennol neu i roi cyflwyniad yn ôl y gofyn.

### **Gweithrediad**

Mae'r Bwrdd yn adrodd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Bydd y Bwrdd Llawn yn cyfarfod fel rheol dair gwaith y flwyddyn.

Bydd unrhyw gyfathrebu fydd ei angen rhwng cyfarfodydd drwy gyfrwng yr e-bost.

Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y cyfarfodydd, yn anfon gwahoddiadau ac yn drafftio nodiadau, a bydd yn darparu man cyfarfod yn un o'i swyddfeydd.